Allech chi fod y Sam nesaf?

Felly, ydych chi eisiau bod yn weithiwr ieuenctid?

GwaithIeuenctidCymru

pobl fel chi sy'n ei wneud fel y mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Wal Ddringo Gerrig
Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg
Y Bontfaen/y Fro Wledig

"Diolch Sam
Roedd cael y wal hon yn gwneud i ni deimlo ein bod wedi cyflawni rhywbeth. Nid oeddem yn meddwl y gallen ni wneud hyn, ond roedden ni'n llwyddo!"

Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

Datblygwyd y pecyn hwn a'r adnodd i bobl ifanc gan CWVYS a Promo Cymru trwy dendr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Aelodau'r tîm oedd:
CWVYS
• Jackie Renn, Ymgynghorydd Annibynnol
• Veronica Wilson, Prif Weithredwr
• Ceri Lloyd, Gweinyddwraig
ProMo Cymru
• Kathryn Allen, Gweithwraig Ieuenctid
• Marco Gil Cervantes, Prif Weithredwr
• Marcus Simpson, Swyddog Datblygu
• Sarah Vaughan, Cydlynydd y Prosiect
• Alex Mills, Burning Red Designs

Dylunio a gosod: Capell Creative

Cydnabyddiaeth

Diolch i bawb a gymerodd ran mewn datblygu'r pecyn a'r adnodd i bobl ifanc, gan gynnwys y grŵp ymgynghori a'r holl bobl ifanc, gweithwyr ieuenctid ac eraill a gynorthwyodd i'w gynhyrchu a chynnal peilot arno.

Sefydliadau

• Pafiliwn Ieuenctid Butetown Caerdydd
• Rhwydwaith y Sector Gwirfoddol Du
• Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Caerfyrddin
• Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru
• Sgowtiaid Sir Morgannwg
• Grassroots (Prosiect Ieuenctid Canol y Ddinas) Caerdydd
• Prosiect Ieuenctid KFC Pen-y-bont ar Ogwr
• Mencap Cymru
• Gweithiwr Ieuenctid a Chymuned Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot
• Ysgol Gyfun Porthcawl – Ymgynghorydd Gyrfaoedd, Cydlynydd Gyrfaoedd a disgyblion
• Cymdeithas Integreiddio Somaliaid
• Coleg y Drindod Caerfyrddin
• Ffermwyr Ifainc Cymru
• Urdd Gobaith Cymru

Unigolion

• Isobel Brown, Gyrfa Cymru
• Jane Hawkshaw
• Sue Muxworthy, Is-gadeirydd CWVYS

Pobl Ifanc

• Paul Bassett • Mark Bassett
• Kieon Raffel • Grant Simpson
• Mark Waynes • Leon Davies

Diolch yn arbennig i bawb a ddarparodd yr astudiaethau achos

Gwobr Dug Caeredin
Wrecsam

“Diolch Sam
Cefais gymaint o deimlad o gyflawni. Roedd yn gwneud i mi deimlo’n dda fy mod wedi cael yr un wobr â phobl sydd fel arfer yn gwneud yn well na mi!”

Cynnwys

Cefndir

Rhan 1	Cyflwyniad i'r pecyn
Rhan 2	Cynllunio gweithdai
Rhan 3	Gwybodaeth gefndirol i weithwyr ieuenctid a phobl ifanc
Rhan 4	Adnoddau a thaflenni

Atodiadau

1	Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru
2	Crynodeb o'r Safonau Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid
3	Ffynonellau Gwybodaeth – cyfeiriadau ar y we a manylion cyswllt
4	Gwybodaeth am Amodau Gwasanaeth a Chyfraddau Cyflog, Cymwysterau, Sefydliadau a Llwybrau Hyfforddiant
5	Safonau Cyfranogi
6	Enghreifftiau o Ddyfarniadau Achrededig i bobl ifanc
7	Cyfeiriadau a ddefnyddir yn yr adnodd

Cefndir

“Mae datblygiad pobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed yn darparu’r sylfeini ar gyfer gweddill eu bywydau – eu perthnasau, eu bywyd teuluol, eu cyfranogiad yn eu cymunedau a’u cyfleoedd i gael gwaith.

Mae ar bob unigolyn ifanc yng Nghymru angen mynediad at amrywiol weithgareddau a phrofiadau sy’n eu helpu i wneud dewisiadau cadarnhaol ac adeiladol, i feithrin sgiliau chymhwysedd emosiynol, a dysgu oddi wrth eu profiadau mewn amgylchiadau cefnogol.

Mae ganddynt hefyd yr hawl i gyfranogi mewn gweithredoedd adolygu, cynllunio a gwneud penderfyniadau sy’n ymwneud â hwy. Disgrifir ein hymrwymiad i gefnogi’r Gwasanaeth Ieuenctid i greu’r cyfleoedd hyn i’w gweld yn y strategaeth hon”

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer Cymru 2007

Mae llawer o bobl ifanc o oedran ysgol wedi cyfranogi o'u gwirfodd yn y Gwasanaeth Ieuenctid ac mae llawer ohonynt yn cofio'r profiad hwnnw am weddill eu bywydau personol a phroffesiynol. Mae'r profiad o Waith Ieuenctid a chyswllt gyda gweithwyr ieuenctid yn ysbrydoli ac yn cymell pobl ifanc i ddilyn gyrfa mewn gwaith ieuenctid neu alwedigaethau cysylltiedig. I rai, dyma ddechrau gyrfa mewn gwaith ieuenctid, am dâl neu heb dâl, a gall hyn ddigwydd mewn oed ifanc neu yn nes ymlaen mewn bywyd.

Un o dargedau'r Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol yng Nghymru yw cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n chwarae rhan yn y Gwasanaeth Ieuenctid o 50% o 200,000 i 300,000 ac mae hyn yn gofyn am weithlu hyfforddedig a phrofiadol. Er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn addas mae angen sicrhau bod y gweithlu ar gael i ddarparu'r gwaith gyda phobl ifanc. Hefyd, mae angen datblygu gweithlu all gyflenwi drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn i bobl ifanc a'u teuluoedd gael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau yn y gymuned a thu allan i'r ysgol.

Mae'r Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol wedi nodi'n glir mai blaenoriaeth yw datblygu'r gweithlu:

'Gweithlu'r Gwasanaeth Ieuenctid yw ei adnodd mwyaf gwerthfawr. Bydd darparu'r Strategaeth yn effeithiol yn ddibynnol ar allu'r gweithlu i droi nodau'r strategaeth yn weithredoedd.'

Gwaith Ieuenctid 'Inspire' mewn Ysbyty Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae recriwtio a chadw gweithwyr a gwirfoddolwyr yn broblem i'r awdurdod lleol a'r Gwasanaeth Ieuenctid gwirfoddol. Mae prinder arweinyddion o blith oedolion o fewn nifer o fudiadau ieuenctid gwirfoddol felly ni allan nhw gyflawni'r galw am eu gwasanaethau gan nad oes digon o wirfoddolwyr yn cynnig eu gwasanaeth.

Mae profiad gwirfoddol pobl ifanc yn rhan bwysig iawn o'r agenda. Cydnabyddir gwerith gwirfoddoli a chyfranogi yn y gymuned a phrofiad gwaith o ran hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol a datblygu sgiliau byw at y dyfodol mewn mentrau strategol megis Comisiwn Russell, Llwybrau Dysgu 14–19 a'r Fagloriaeth Gymreig.

Leuenctid KPC
Pîl ger Pen y Bont ar Ogwr

Mae datblygiad yr adnodd hwn y gall gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cysylltiedig ei ddarparu gyda phobl ifanc yn hanfodol bwysig o ran dal egni a brwdfrydedd pobl ifanc a gallai annog pobl ifanc i feddwl am barhau eu hymwneud â'r Gwasanaeth Ieuenctid fel rhan bwysig o'u dyfodol. Mae'r buddiannau iddynt fel unigolion a gwybodaeth hygyrch yn agweddau pwysig o ran galluogi pobl ifanc i fod â gweledigaeth gadarnhaol o waith ieuenctid a'u cyfraniad iddo.

Datblygu 'Allech chi fod y Sam nesaf?'

Datblygwyd yr adnodd dwyieithog hwn trwy bartneriaeth rhwng CWVYS (Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol) a ProMo-Cymru a gomisiynir ac a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, sydd wedi goruchwylio ei ddatblygiad. Dyma un o weithgareddau'r Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Mae'r adnodd hwn wedi gofyn am gryn gynllunio a sesiynau peilot gyda gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc o sawl cefndir. Ceisiwyd cyngor hefyd gan ystod o bobl sy'n gweithio i gefnogi pobl ifanc a'u cynorthwyo i ddatblygu eu gyrfaoedd.